

## Atodiad 2

### Ymgynghoriad am y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr

#### Ffurflen Ymateb

i'r

#### Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

E-bost / Rhif ffôn:

[Rebecca@athrawon.com](mailto:Rebecca@athrawon.com) / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 2EU

### Cwestiwn 1: Pa rannau o'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr y mae angen iddyn nhw gael eu hesbonio'n gliriach? Pam?

Ar y cyfan, mae UCAC o'r farn bod y Canllawiau'n glir ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae gennym rai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau:

1.7 Yn yr ail pwynt bwled, credwn y byddai'n fuddiol cyfeirio at 'addysg a hyfforddiant' fan hyn, yn hytrach nag at 'addysg' yn unig; byddai hynny'n gyson â geiriad y Mesur, ac yn sicrhau bod y cyrff a'r unigolion perthnasol yn deall hyd a lled eu dyletswyddau mewn modd cywirach.

1.13 Awgrymwn y dylid ychwanegu at y rhestr pwyntiau bwled: Sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

1.28 Nid yw'n gwbl glir beth yw ystyr a bwriad y trydydd pwynt bwled; mae'r cyd-destun yn awgrymu'n gryf mai ysgol addas agosaf y dysgwr sydd dan sylw – felly beth yw diben ystyried 'lleoliad cartref y dysgwr mewn perthynas â'r ysgolion sydd ar gael yn yr ardal' yng nghyd-destun yr amser y mae'r daith rhwng y cartref a'r ysgol yn ei chymryd? Yr unig esboniad y gallwn ni feddwl amdano yw bod y daith rhwng y cartref ag ysgol benodol arall o bosib yn hirach o ran pellter, ond yn gyflymach o ran amser – ai dyna sydd dan sylw fan hyn? Beth bynnag yw'r bwriad, rydym o'r farn bod angen ei wneud yn gliriach.

1.43 Mae'r dewis o eirfa yn y Gymraeg ychydig yn rhyfedd fan hyn; teimlwn nad yw 'deddfu' yn drosiad cywir o 'enact' yn y cyd-destun hwn, ac y byddai 'cyflawni' neu 'gweithredu' yn agosach at yr ystyr a fwriedir.

1.64 Cwestiynwn gywirdeb cynnwys y cymal 'os yw'n ymarferol gwneud hynny' yn y paragraff hwn. Ni welwn unrhyw amod o'r fath yn narpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr, ac felly nid ydym yn teimlo ei fod yn briodol i'w gynnwys fan hyn.

1.75 Anghytunwn yn gryf iawn â geiriad ail frawddeg y cymal hwn, sydd ym marn UCAC yn gwbl gamarweiniol. Mae'r Mesur yn hollol glir bod cyfrifoldeb

ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol addas agosaf, os ydynt yn byw y tu hwnt i'r pellteroedd penodedig ar gyfer y cyfnod addysg dan sylw. Ar ben hynny, mae'r Mesur yn rhoi:

- disgresiwn i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant ar gyfer grwpiau neu unigolion eraill, yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau – gan gynnwys dewis cyfrwng iaith
- cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'

Nid yw UCAC o'r farn bod hyn yn gyfystyr â 'thrin y dewis o'r naill iaith yn gyfartal'.

Mae'r Mesur ei hun yn gwahaniaethu yn erbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy beidio cydnabod dewis iaith yn rhan o ddiffiniad 'ysgol addas agosaf'. Mi fydd yr ysgol addas agosaf wastad yn darparu addysg cyfrwng Saesneg, ond ni fydd hynny'n wir bob tro ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hynny, yn dechnegol, yn rhoi'r hawl i ALLau beidio darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n dewis derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg – er, rhaid nodi nad oes yr un ALL wedi dewis gwneud hynny ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol.

Rhaid derbyn yr hyn sydd yn y Mesur, am mai dyna'r gyfraith, a derbyniwn na all yr ymgynghoriad hwn ailagor y trafodaethau hynny. Fodd bynnag, mae'r Mesur yn ceisio gwneud yn iawn am yr anghyfartaledd hyn drwy, yn Adran 10, gosod dyletswydd ar ALLau i 'Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae'n neilltuol o bwysig i nodi bod y ddarpariaeth hon yn cyfeirio'n benodol at hybu mynediad i addysg/hyfforddiant **cyfrwng Cymraeg** – ac nid at addysg/hyfforddiant yn y naill iaith neu'r llall. Yn ein barn ni, mae'r Mesur yn gwbl glir ar y mater hwn, a bydd UCAC yn barod i gymryd cyngor cyfreithiol ar y mater os na fydd Llywodraeth Cymru'n cydsynio i newid yn y geiriad.

1.78 Mae'r gair 'efallai' ('may need to be taken into account' yn y fersiwn Saesneg) yn gwbl amhriodol fan hyn. Mae canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, dan Adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn datgan mai un o ofynion pob Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, o dan Deilliant 1, yw: 'Disgrifiwch sut mae'r awdurdod lleol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol, o dan Adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.'

Nid yw hyn, felly, yn fater o 'efallai', ond yn hytrach yn rhan o ofynion sylfaenol cwblhau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn unol â'r gofynion statudol.

1.84 Mae cyfieithiad rhyfedd fan hyn; awgrymwn fod 'yn cael ei phennu' (yn hytrach nag 'yn benderfynol o fod') yn gyfieithiad fwy addas ar gyfer 'is determined to be' yn y cyd-destun hwn.

1.99 Awgrymwn ychwanegu at y rhestr pwyntiau bwled: Trafnidiaeth i ddysgwyr sy'n dewis derbyn addysg neu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r cyfrifoldeb i hybu mynediad at y cyfryw addysg neu hyfforddiant. Byddai hyn yn cydgorio'r llwyr â chwestiwn 11 yn Adran 3: Canllaw Cyngori – Cwestiynau Cyffredin a'u Hatebion.

1.131 Cyfeirir fan hyn at gymalau penodol yn Neddf Addysg 1996, ond ni cheisir disgrifio neu grynhoi cynnwys y cymalau hynny; tybiwn y byddai'r ystyr llawer yn gliriach petai disgrifiad neu grynodeb o'r fath yn cael ei gynnig.

1.136 Tybed a oes angen cyfeirio yn y cymal hwn at Fesur y Gymraeg (2011)?

5.8 Cytunwn â chynnwys y cymal, ond teimlwn y dylid ychwanegu brawddeg sy'n pwysleisio'r cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrth Adran 10 o'r Mesur.

Cynhwyswyd brawddeg o'r fath yn y cymal cyfatebol (1.23) yn y Canllawiau cyfredol (2009) – gellid atgynhyrchu hwnnw, neu ddefnyddio geiriad tebyg i'r hyn sydd yng nghwestiwn 11 yn 'Adran 3: Canllaw Cynghori – Cwestiynau Cyffredin a'u Hatebion' o'r Canllawiau arfaethedig. Mae'r cymal yn sicr yn wannach, ac o bosib yn gamarweiniol, ar ôl hepgor y frawddeg hon.

Adran 3: Canllaw Cynghori – Cwestiynau Cyffredin a'u Hatebion: Cwestiwn 23 Fel yn 1.131 uchod, cyfeirir at gymalau penodol yn Neddf Addysg 1996, ond ni cheisir disgrifio neu grynhai cynnwys y cymalau hynny; tybiwn y byddai'r ystyr llawer yn gliriach petai disgrifiad neu grynodeb o'r fath yn cael ei gynnig.

## **Cwestiwn 2: Pa rannau o'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr sy'n cael eu hesbonio'n glir ac sy'n hawdd eu defnyddio?**

Ar y cyfan, mae UCAC o'r farn bod y Canllawiau'n glir ac yn gynhwysfawr.

## **Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau ar deithio gan ddysgwyr yn dylanwadu ar feysydd polisi ehangach, megis addysg a lles a diogelu plant, ac a yw'r polisiau hynny'n cael digon o sylw yn y canllawiau?**

Ydyn, ar y cyfan.

Fodd bynnag, gresynwn at y ffaith fod paragraffau gwerthfawr iawn mewn perthynas â chludiant i addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u hepgor o'r Canllawiau cyfredol.

Yn benodol, mae UCAC o'r farn y byddai'n werth ymgorffori'r paragraffau canlynol (neu addasiad ohonynt) o'r canllawiau cyfredol yn y canllawiau arfaethedig:

2.13 – sy'n cydnabod dylanwad polisiau cludiant ar ddewis rhieni ynghylch cyfrwng iaith addysg eu plant, a'r ffaith bod y teithiau yn aml dipyn yn hirach i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf

2.14 – perthnasedd y ddyletswydd i addysg/hyfforddiant ôl-16

2.16 – ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu ymhellach petai Awdurdodau Lleol yn gwneud trefniadau cludiant a fyddai'n arwain at 'leihau'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu yr ymddengys y byddai'n arwain at leihad yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg' neu'n 'effeithio ar effeithiolrwydd neu ddichonolrwydd ysgol cyfrwng Cymraeg'.

2.17 Rhestr o arferion da o ran dyletswydd i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg; ar hyn o bryd nid yw'r Canllawiau arfaethedig yn cynnwys unrhyw fath o arweiniad ar ddehongliad yr Adran hon o'r Mesur.

**Cwestiwn 4: A ddylid cynnwys unrhyw feysydd/darpariaethau eraill yn y canllawiau? Os dylid, rhowch fanylion.**

Heblaw am yr uchod, nid oes gennym unrhyw awgrymiadau pellach.

**Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol yw'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr**

Maent yn llawlyfr defnyddiol iawn, gan eu bod yn dod â'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd mewn un man. Hyd yma, mae hi wedi bod yn anodd dod o hyd i'r holl ffynonellau, a bod yn sicr mai dyma'r dogfennau fwyaf diweddar.

**Cwestiwn 6: A fyddai'n syniad da cynnwys yr holl bolisiau sy'n ymwneud â theithio gan ddysgwyr yn y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr – er enghraifft, rhagor o wybodaeth am y Cod Teithio, Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<sup>1</sup>? Pam?**

Byddai – naill ai fel dogfennau cyfan, neu fel dolenni i'r dogfennau. Mae cael dogfen sy'n dod â phob ffynhonnell perthnasol at ei gilydd yn eithriadol o werthfawr, ac yn arbed llawer fawr iawn o ymdrech i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion Awdurdodau Lleol – ac yn helpu i osgoi camgymeriadau.

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, mae croeso i chi eu nodi isod:**

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

<sup>1</sup> Diwygiwyd Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 gan Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011, a oedd yn cyflwyno darpariaethau newydd yn ymwneud â diogelwch. Felly, mae'r term, 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)' yn ymgorffori'r darpariaethau sydd yn y Mesur gwreiddiol, a wnaed yn 2008, a'r darpariaethau hynny ynghylch diogelwch a gyflwynwyd gan Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011.